

Rydym yn falch i allu cynnig gwiriadau DBS ar-lein mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd.

Byddem wedi hoffi medru cynnig gwasanaeth DBS ar-lein ers talwm, ond ni lwyddwyd i wneud hynny gan nad oedd hi'n bosib cynnig y gwasanaeth yn llawn yn Gymraeg. Yn anffodus, mae hyn yn dal yn wir. Gellir cwblhau rhan gychwynnol y broses ar-lein drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ar ôl i'r ymgeisydd gyrraedd y ffurflen ar-lein, mae'r iaith yn newid i'r Saesneg.

Rydym ni, a sefydliadau eraill, wedi bod yn pwysu ar y DBS i gynnig system gwbl ddwyieithog, ac rydym yn aros i hynny ddigwydd, ond er mawr siom i ni, gohiriwyd hynny sawl tro. Yn gyndyn iawn, felly, rydym wedi penderfynu cyfaddawdu am y tro, a bwrw ymlaen â'r drefn hon gan ei bod yn rhoi mynediad at broses llawer cyflymach a mwy effeithlon.

Byddwn yn parhau i frwydro dros y mater pwysig hwn, a byddwn mewn cysylltiad â'r DBS a Chomisiynydd y Gymraeg i fynegi ein pryderon parhaus ynglŷn â diffyg proses gwbl ddwyieithog.

Byddwn yn parhau i gynnig ffurflen gais DBS bapur yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae modd i bawb ddewis.

Fel y gwyddoch mae'r dystysgrif bob amser yn uniaith Saesneg, ac unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi ei godi gyda nhw droeon.

Mai 2023